**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JMEWL/2166/22

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

19 Gorffennaf 2022

Annwyl Lywydd,

Cyflwynwyd y Bil Ysgolion ("y Bil") yn Senedd y DU (Tŷ'r Arglwyddi) ar 11 Mai 2022.

Mae'r Bil yn cynnwys ystod o fesurau ar faterion megis cyllid ysgolion, rheoleiddio sefydliadau addysgol annibynnol, camymddygiad athrawon, presenoldeb, gweithredu cofrestr a system gefnogaeth i blant nad ydynt yn yr ysgol, a strwythur a system reoleiddio ymddiriedolaethau academïau.

Mae fy swyddogion innau wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â swyddogion Adran Addysg Llywodraeth y DU ers mis Medi diwethaf i drafod y cynlluniau sydd gan y naill wlad a'r llall ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, materion traws-awdurdodaethol posibl a'r heriau amrywiol sy'n ein hwynebu i gyd mewn perthynas â'r polisi hwn. Bu fy swyddogion yn archwilio'r posibilrwydd o gydweithredu ar orchmynion presenoldeb mewn ysgolion a rhannu data ynghylch addysg ddewisol yn y cartref rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Ni chytunwyd y dylid cynnwys darpariaeth yn ymwneud â Chymru mewn unrhyw agwedd ar y Bil, ac felly nodwyd wrth ei gyflwyno mai dim ond ar Loegr y byddai'n effeithio. Am y rheswm hwnnw, roedd Llywodraeth y DU o'r farn nad oedd angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil, fel y'i gosodwyd.

Fodd bynnag, ar 30 Mai cyflwynwyd gwelliant - "gwelliant 96" - gan y Farwnes Barran i'w ystyried yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, a ddechreuodd ar 8 Mehefin ac a ddaeth i ben ar 27 Mehefin. Mae'r gwelliant yn ymwneud ag adran 494 o Ddeddf Addysg 1996, a bydd yn ymestyn y darpariaethau digolledu rhwng awdurdodau ar gyfer disgyblion a waherddir, a nodir yn adran 494 o Ddeddf Addysg 1996, i gwmpasu academïau. Cytunwyd ar y gwelliant ar 20 Mehefin ac mae wedi'i ymgorffori yn y Bil, fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi yn Atodlen 3, paragraff 1. Mae'r gwelliant yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil 7 Gorffennaf 2022, felly, ymddiheuraf ei fod wedi’i osod yn hwyrach na therfyn amser Rheol Sefydlog 29 o bythefnos. Mae hyn yn rhannol oherwydd methiant Llywodraeth y DU i hysbysu Llywodraeth Cymru bod y gwelliant wedi'i gyflwyno.

Rydym yn parhau i ystyried goblygiadau'r Bil yng nghyd-destun datganoli wrth iddo fynd rhagddo, i sicrhau nad oes dim pellach sy'n ei gwneud yn ofynnol dilyn proses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Unwaith y bydd y dadansoddiad o’r cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â gweddill y Bil wedi'i gwblhau, ysgrifennaf eto os byddaf yn bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pellach.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS a Chadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Jayne Bryant AS.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language